# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

**Saunders Lewis a Phenarth, y lle a newidiodd hanes Cymru – ddwywaith! (rhan 3)**

Torrwyd ar draws y gyfres o erthyglau ar Saunders Lewis a Phenarth oherwydd imi benderfynu neilltuo'r ddwy erthygl ddiwethaf yng ngholofn 'Llys a Llan' i sôn am un o hyrwyddwyr mawr y Gymraeg, Gwilym Roberts, Rhiwbina, a fu farw ym mis Tachwedd 2025 yn 90 oed. Ond dyma ailgydio yn awr yn y gyfres ar Saunders Lewis a lle Penarth yn ei hanes.

Fel y nodwyd yn erthygl gyntaf y gyfres, yn rhifyn Tachwedd 2025 o'r *Dinesydd*, un a aned yn ardal Lerpwl oedd Saunders Lewis (1893–1985). Cafodd ei fagu yn rhan o'r gymuned Gymraeg gref a oedd ar lannau Mersi yn ystod ei ieuenctid, a'i dad yn weinidog yn un o eglwysi niferus y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig ar y Glannau. Ond erbyn i Saunders fynd yn fyfyriwr i Brifysgol Lerpwl yn 1911, byddai'n iawn ei ystyried yn hedonydd rhamantaidd ac yn fwy o Sais nac o Gymro ar lawer ystyr. Nid oedd Cymru'n ddim iddo yn y cyfnod hwnnw, meddai Saunders ei hun.

Ond bu newid mawr yn ei hanes pan oedd yn filwr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, oherwydd yr adeg honno daeth yn genedlaetholwr Cymreig. Yn awr, yn lle uchelgais i ennill clod a bri ym myd llenyddiaeth Saesneg, roedd bellach am ennill enw iddo ei hun yn y byd Cymraeg. Yr adeg honno hefyd, cafodd dröedigaeth grefyddol. Arweiniodd hynny maes o law ato'n ymuno â'r Eglwys Gatholig, oherwydd ei anfodlonrwydd gyda'r rhyddfrydiaeth ddiwinyddol a oedd ar dwf yn enwad y Methodistiaid Calfinaidd ac a fwriai amheuaeth ar rai o sylfeini'r ffydd Gristnogol uniongred, megis Duwdod Crist, ei Iawn a'i Atgyfodiad. A byrdwn cyson Saunders Lewis o hynny allan fyddai mai problem ysbrydol oedd problem waelodol Cymru ac mai diwygiad Cristnogol i'w deffro o'i materoliaeth oedd yr unig wir ateb i'w chyflwr argyfyngus.

Cafwyd adfywiad gwladgarol Cymreig arwyddocaol yn yr 1880au, a esgorodd ar Fudiad Cymru Fydd, a oedd yn agos gysylltiedig â'r Blaid Ryddfrydol, y blaid wleidyddol gryfaf yng Nghymru ar y pryd. Yn sgil hynny, crëwyd nifer o sefydliadau cenedlaethol Cymreig, megis Llyfrgell ac Amgueddfa Genedlaethol. Ond methiant fu pob ymdrech i gael mesur o hunanlywodraeth i Gymru, ac erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, prif ffocws gwladgarwyr Cymreig oedd ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, yn wyneb y perygl cynyddol i barhad yr iaith, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru.

Cyflwynwyd y Rhyfel Byd Cyntaf gan rai fel y prif weinidog, David Lloyd George, fel brwydr o blaid cenhedloedd bychain a'u hawliau. Roedd y cyfnod a ddilynodd y rhyfel yn un o ailadeiladu cyffredinol yn hanes Prydain, ac yn achos Cymru, gwelwyd lleisiau yn codi a bwysleisiai'r angen i 'genedl fach' y Cymry hithau gael ei thrin yn anrhydeddus a'i hailadeiladu i fod yn gymwys ar gyfer y byd modern newydd.

Gwelodd degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif amrywiaeth o fudiadau yn ymffurfio i frwydro dros barhad y genedl Gymreig. Fel yn y cyfnod cyn y rhyfel, hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant oedd prif ffocws nifer o'r grwpiau gwladgarol a ddaeth i fod wedi'r rhyfel. Ond yn gyfochrog â'r pwyslais ar bwysigrwydd yr iaith, gwelwyd rhai gwladgarwyr Cymreig yn awr yn rhoi pwys o'r newydd ar yr angen am fesur o ymreolaeth wleidyddol i Gymru.

Fel yn achos Mudiad Cymru Fydd o'u blaen, roedd rhai am weithredu y tu mewn i'r drefn wleidyddol Lundeinig, ond gwelwyd eraill, yn enwedig ymhlith yr ifainc, yn galw am sefydlu plaid genedlaethol Gymreig. Amcan plaid o'r fath, meddai Saunders Lewis, oedd 'i roi terfyn ar gulni a phlwyfoldeb Cymru […], ehangu meddwl Cymru, rhoi iddi asgwrn cefn fel y gallo sefyll yn unionsyth a neidio dros glawdd Lloegr yn ôl i'w lle yn Ewrop a'r byd; rhoi iddi ran yn y byd modern'.

Roedd y Gymraeg yn gwbl ganolog i agenda Saunders Lewis. 'Mae'r iaith yn bwysicach na hunanlywodraeth', meddai yn ei ddarlith enwog 'Tynged yr Iaith' yn 1962. Ac arwydd o gysondeb ei weledigaeth ar hyd y blynyddoedd o'r 1920au ymlaen yw mai dyna oedd ei argyhoeddiad hefyd ddeugain mlynedd ynghynt. Fel y dywedodd yn ei ddarlith 'Egwyddorion Cenedlaetholdeb' yn 1926, roedd parhad a ffyniant Cymru, ei diwylliant cynhenid a'i delfrydau, yn llwyr ddibynnol ar barhad a ffyniant yr iaith Gymraeg. Ond erbyn hynny, roedd hefyd wedi dod i'r argyhoeddiad fod angen gweithredu'n wleidyddol er mwyn diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a'r gwareiddiad Cymreig.

Saunders Lewis oedd un o'r lleisiau amlycaf ar ddechrau'r 1920au o blaid creu plaid boliticaidd Gymreig i ymgyrchu dros ymreolaeth i Gymru. Yn briodol iawn o gofio pwysigrwydd y Barri yn hanes y mudiad cenedlaethol Cymreig, mewn darlith i Gymrodorion y Barri yn Hydref 1922 y siaradodd Saunders Lewis yn gyhoeddus am y tro cyntaf ar fater cenedlaetholdeb. Ond anerchiadau ganddo yn Awst 1923, yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yna mewn ysgol haf yn Llandrindod, a ddechreuodd gynhyrfu'r dyfroedd o ddifrif. Ac meddai Prosser Rhys, golygydd papur newydd *Y Faner*, am anerchiad 'anghyffredin' Saunders Lewis yn Llandrindod, mai hwnnw 'i'm bryd i, a roddes gychwyn mewn ffurf ymarferol i'r mudiad cenedlaethol'.

Un arall a fu'n hyglyw ei lais dros y Gymraeg ac ymreolaeth wleidyddol i Gymru yn nechrau'r 1920au oedd W. Ambrose Bebb (1894–1955), a fu'n darlithio ym Mharis o 1920 hyd 1925, pan gafodd ei benodi'n

ddarlithydd yn y Coleg Normal ym Mangor, lle yr arhosodd weddill ei oes. Ac meddai Saunders Lewis amdano, ‘Ar ôl rhyfel 1914–18 erthyglau politicaidd Bebb a wnaeth fwyaf i atgyfodi cenedlaetholdeb Cymreig a rhoi cychwyn i fudiad Plaid Cymru. Y mae iddo le pwysig yn hanes Cymru o’r herwydd.’

A dyma’r ddau, sef Saunders Lewis ac Ambrose Bebb, a wahoddwyd gan y pâr priod ifanc, Griffith John ac Elisabeth Williams, i aros yn eu cartref, 9 Bedwas Place, Penarth, ddechrau Ionawr 1924. Ac yno y cytunodd y pedwar i ffurfio ‘Mudiad Cymreig’ dirgel, un o’r camau pwysicaf yn y llwybr troellog a arweiniodd at sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru ym Mhwllheli yn Awst 1925.

Cyfarfu Griffith John Williams (1892–1963), o Gellan yng Ngheredigion, ac Elizabeth Elen Roberts (1891–1979), o Flaenau Ffestiniog, pan oeddynt yn fyfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth. Daethant yn genedlaetholwyr Cymreig tra oeddynt yn y coleg, ac aros yn angerddol eu cenedlaetholdeb weddill eu bywydau. Priodasant yn 1922 ac ymgartrefu ym Mhenarth nes symud i bentref Gwaelod-y-garth yn 1929.

Roedd llwybrau Saunders Lewis a G. J. Williams wedi dechrau croesi yn 1920, tra oeddynt wrthi’n ymchwilio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ond cryfhawyd eu perthynas ymhellach wedi i’r ddau ohonynt symud i fyw i Gaerdydd yn 1921, pan benodwyd G. J. Williams yn ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol a Saunders Lewis yn gyfarwyddwr cynllun llyfrgellyddol yn sir Forgannwg (cyn iddo symud ym Medi 1922 i fod yn ddarlithydd yng Ngholeg Prifysgol Abertawe).

Ond roedd y cysylltiad rhwng G. J. Williams ac Ambrose Bebb yn mynd yn ôl ymhellach o dipyn. Bu’r ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Ganolraddol Tregaron ac yna yn fyfyrwyr yng Ngholeg Aberystwyth. Byddai sawl un arall a ddaeth yn amlwg yn rhengoedd Plaid Cymru yn troedio’r un llwybr o Ysgol Tregaron i Goleg Aberystwyth, gan gynnwys Cassie Davies a Kitchener Davies. Ac mae enwi’r pedwar hynny yn unig yn ddigon i ddangos paham y mentrais ddweud mewn darlith am G. J. Williams a Saunders Lewis yng Ngwaelod-y-garth yn Rhagfyr 2015 (ac sydd i’w chlywed ar ochr Gymraeg gwefan Cymdeithas Hanes Plaid Cymru) fod Ysgol Tregaron yn grud pwysig i’r mudiad cenedlaethol.

Daeth sawl grŵp ynghyd i ffurfio Plaid Cymru ym Mhwllheli yn Awst 1925. Ond gellid dadlau mai’r cam hollbwysig yn yr hanes ar sawl cyfrif oedd y cyfarfod ym Mhenarth yn Ionawr 1924 pan ffurfiwyd y ‘Mudiad Cymreig’, am i hynny arwain at dynnu Saunders Lewis i ganol y darlun. Oherwydd gallai Arwel Vittle a Gwen Gruffudd ddweud am Saunders yn eu cyfrol bwysig, *Dros Gymru’n Gwlad* (2025), mai ef oedd ‘pensaer y Blaid Genedlaethol fel y daeth i fod yn 1925’. Roedd ei agwedd benderfynol, ei garisma a’i ddeallusrwydd, ei egni, ei drefn a’i ddisgyblaeth, yn gwbl allweddol yng nghychwyniadau’r Blaid ac yn ei blynyddoedd cynnar. Yn wir, gallai’r hanesydd, Dr John Davies, Bwlch-llan (un arall o ddisgyblion Ysgol Tregaron), fynd mor bell â dweud ei bod yn bosibl ‘na fyddai Mudiad Cenedlaethol o gwbwl oni bai amdano fe’.



Hawlfraint:
ogwen.306.cymru

Byddai gan Benarth le pwysig yn hanes Saunders Lewis mewn cyfnod tipyn yn ddiweddarach, am iddo symud i fyw i 158 Westbourne Road, Penarth, adeg y Pasg 1952, yn dilyn cael ei benodi’n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd gan ei gyfaill agos, yr Athro Griffith John Williams. Yn Westbourne Road, Penarth, y byddai’n byw weddill ei fywyd, ac yno yr oedd pan gyhoeddwyd nifer o’i weithiau pwysicaf, gan gynnwys dramâu megis *Siwan*, *Brad*, *Esther* a *Cymru Fydd*; ei ‘ramant hanesiol’ *Merch Gwern Hywel*; ei astudiaethau treiddgar ar yr emynyddes Ann Griffiths; ei gerdd ddwys ‘Gweddi’r Terfyn’; a’i ddarlith radio hynod ddylanwadol ‘Tynged yr Iaith’.

Mewn cyfweliad ag Aneirin Talfan Davies a deledwyd ym mis Mai 1960, dywedodd Saunders Lewis yn ei ffordd ddramatig ef ei hun, ‘Yr oedd gen i awydd, nid awydd bychan, awydd mawr iawn i newid hanes Cymru. I newid holl gwrs Cymru, a gwneud Cymru Gymraeg yn rhywbeth byw, cryf, nerthol, yn perthyn i’r byd modern. Ac mi fethais yn llwyr.’

Ni chytunai pawb ag ef o bell ffordd! Er enghraifft, fe’i disgrifiwyd yn 1987 gan yr Athro R. Geraint Gruffydd (mab ei gyfaill mawr, Moses Griffith, un arall o sylfaenwyr Plaid Cymru) fel ‘athrylith o wleidydd, dramodydd, bardd a beirniad llenyddol – gŵr yn wir a newidiodd gwrs hanes Cymru’.

Hyd yn oed cyn 1960, byddai llawer un yn barod i ddadlau fod Saunders Lewis ymhell iawn o fod yn fethiant, ar sail ei gyfraniad i’r mudiad cenedlaethol ac fel llenor creadigol a beirniad llenyddol. Ond yna, lai na dwy flynedd wedi iddo ddatgan yn gyhoeddus ei fod yn ‘fethiant’, darlledwyd ei ddarlith chwyldroadol ‘Tynged yr Iaith’ yn Chwefror 1962 – darlith a ysbrydolodd rai cenedlaetholwyr ifainc i sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Awst 1962; darlith, felly, a newidiodd gwrs hanes Cymru a’r Gymraeg; a darlith a luniwyd ym Mhenarth!

Ciliodd Saunders Lewis o fyd ‘gwleidyddiaeth plaid’ ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ond fel y dengys ‘Tynged yr Iaith’, parhaodd i wneud datganiadau o natur wleidyddol ar hyd y blynyddoedd wedyn, mewn erthyglau ac ar ffurf llythyrau yn y wasg. Mewn ysgrif Saesneg yn 1973, mae gan Emyr Humphreys sylw cofiadwy am y datganiadau a ddeuai o bryd i’w gilydd o gartref Saunders Lewis ym Mhenarth a’u heffaith ar y ‘sefydliad’. ‘You hope’, meddai (a Saunders erbyn hynny yn 80 mlwydd oed), ‘they still tremble when one small foot stamps in Westbourne Road. A very necessary figure.’